Adroddiad ar

# Goleg Plas Dwbl

Mynachlog-ddu
Clunderwen
Sir Benfro
SA66 7SE

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Choleg Plas Dwbl

Agorodd Coleg Plas Dwbl, sy’n rhan o Ruskin Mill Trust Group, ym mis Medi 2011. Mae’n goleg arbenigol annibynnol ar gyfer pobl ifanc sydd ag ystod o anawsterau dysgu, gan gynnwys anhwylder ar y sbectrwm awtistig, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd ac anawsterau cymdeithasol ac emosiynol.

Mae’r coleg wedi’i leoli ar fferm bio-dynamig 100 erw ar droed mynyddoedd y Preseli yn Sir Benfro. Mae’r tir yn cynnwys porfa, coetir a gerddi helaeth ar gyfer garddwriaeth. Ar hyn o bryd, mae 23 o ddysgwyr rhwng 16 a 25 oed yn mynychu’r coleg. O’r rhain, mae gan fwyafrif y dysgwyr leoliadau preswyl ac maent yn byw yn nhai preswyl y coleg sydd wedi’u lleoli’n lleol. Caiff mwyafrif y dysgwyr eu lleoli gan awdurdodau lleol yng Nghymru a lleiafrif ohonynt eu lleoli gan awdurdodau lleol yn Lloegr.

Mae’r coleg yn seilio ei athroniaeth addysgol ar egwyddorion sylfaenol yr athronydd a’r gwyddonydd Rudolph Steiner, yr hollddysgedig John Ruskin a’r ffigwr celf a chrefft, William Morris. Mae’n cynnig Addysg Therapiwtig Medrau Ymarferol (PSTE), sy’n cynnig cyfle i ddysgwyr ddysgu trwy weithgareddau go iawn. Mae’r gweithgareddau hyn yn cynnwys ystod eang o sesiynau ymarferol yn yr efail, y fferm, gweithdy crefft a’r gegin.

Bu pennaeth y coleg yn y swydd er mis Medi 2024. Caiff ei gefnogi gan ddirprwy bennaeth a phennaeth cynorthwyol. Caiff y tîm arweinyddiaeth ei gefnogi gan dri ar ddeg o diwtoriaid a 24 o staff cymorth, therapydd galwedigaethol a therapydd iaith a lleferydd. Cynhaliwyd yr arolygiad llawn diwethaf o’r coleg yn 2023.

## Prif ganfyddiadau

Mae Coleg Plas Dwbl yn cynnig amgylchedd tawel, croesawgar a hynod gynhwysol sydd wedi’i seilio ar gyd-barch sy’n cefnogi dysgwyr ag anghenion cymhleth yn effeithiol. Mae’r cwricwlwm wedi’i seilio ar ethos o ‘ailddychmygu potensial’ ac yn cyfuno dysgu achrededig a heb ei achredu, ynghyd â phrofiadau ymarferol, dilys fel dysgu ar y tir, sydd wedi’i ategu gan ddull ‘o’r hedyn i’r bwrdd’. (Dull cyfannol sy’n dilyn bwyd trwy bob cam o’i gylchred bywyd, o dyfu i fwyta).

Mae arweinwyr yn dangos ymrwymiad cryf i ddarpariaeth bersonoledig dros ben sydd wedi’i theilwra i anghenion synhwyraidd, emosiynol a chyfathrebu unigol. O ganlyniad, caiff dysgwyr eu cefnogi i gymryd rhan yn ystyrlon mewn sesiynau, sefyllfaoedd cymdeithasol a gweithgareddau penderfynu, fel cyngor y myfyrwyr a thrafodaethau grŵp. Mae llais y dysgwyr yn un o gryfderau’r coleg.

Mae bron pob un o’r staff yn adnabod y dysgwyr yn arbennig o dda. Mae’r coleg yn sicrhau bod pwyslais cryf ar les dysgwyr wrth wraidd ei waith. Mae staff a dysgwyr yn cymryd rhan mewn gwasanaethau wythnosol ar y cyd, lle mae gwaith cymuned y coleg yn cael ei ddathlu a’i werthfawrogi.

Mae dysgwyr yn deall y rôl y maent yn ei chwarae o ran cefnogi eu lles eu hunain trwy ystod o weithgareddau ymarferol ystyrlon, gan gynnwys cerdded tiroedd y coleg, casglu a danfon llysiau i gegin y coleg, cymryd rhan mewn dysgu ar y tir a garddwriaeth, a pharatoi prydau bwyd. O ganlyniad, mae dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o ffyrdd iach o fyw, yn gwella eu medrau hunanreoleiddio ac yn magu’r hyder a’r annibyniaeth sydd eu hangen i gymryd rhan ym mywyd y coleg a’r gymuned ehangach.

Mae staff yn meithrin perthnasoedd gwaith cryf â dysgwyr, sy’n creu amgylchedd cefnogol lle mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo’n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu hannog i gymryd rhan. Mae staff yn defnyddio ystod o weithgareddau difyr sy’n hybu diddordeb dysgwyr ac yn datblygu eu hyder wrth siarad a chydweithio. O ganlyniad, mae llawer o ddysgwyr yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn cydweithio’n dda â’i gilydd mewn sesiynau.

**Ciplun: Dulliau cyfathrebu**

Mae dysgwyr yn elwa ar gydweithio cryf rhwng staff addysgu, therapyddion, staff preswyl a staff cymorth. Un cryfder nodedig yw'r defnydd hynod effeithiol o ddulliau cyfathrebu ar draws y coleg.

Caiff staff eu cefnogi i ddefnyddio iaith arwyddion, symbolau, byrddau cyfathrebu ac adnoddau gweledol personoledig yn gyson i gefnogi ymgysylltiad a chyfranogiad dysgwyr. Trwy gyfuno ystod o ddulliau cyfathrebu, mae staff yn lleihau rhwystrau dysgwyr rhag deall a rhyngweithio. O ganlyniad, mae dysgwyr yn cael profiad o amgylcheddau cefnogol a rhagweladwy sy'n cefnogi cyfranogiad a chynnydd effeithiol mewn medrau iaith, rhyngweithio cymdeithasol a hunanreoleiddio.

Mae staff yn gwrando ac yn ymateb yn effeithiol i lais y dysgwr. Mae adnoddau cyfathrebu yn cefnogi dysgwyr yn fuddiol i gyfrannu'n bwrpasol at fywyd y coleg a deall eu cynnydd eu hunain. Er enghraifft, mae dysgwyr yn mynegi eu barn ynghylch digwyddiadau diwedd tymor a lleoliadau profiad gwaith.

Mewn sesiynau a arsylwyd yn ystod yr ymweliad hwn, dangosodd bron pob un o'r dysgwyr ymddygiad cadarnhaol dros ben yn unol â'u hanghenion a'u galluoedd. Mae dysgwyr wedi'u cymell i ddysgu ac yn falch iawn o fod yn aelod o gymuned y coleg. Ar ben hynny, mae'r sefydliad ehangach wedi buddsoddi'n sylweddol i wella'r amgylchedd dysgu, er enghraifft estyniad i'r efail a'r adeiladau fferm ar y safle, sy'n gwella'r mannau dysgu ymarferol yn y coleg ymhellach.

Mae bron pob dysgwr yn cymryd rhan mewn cyfleoedd profiad gwaith pwrpasol yn fewnol ac yn allanol. Yn y coleg, mae dysgwyr yn cynorthwyo â thasgau gweinyddol, yn gweithio ochr yn ochr â'r tîm cynnal a chadw, neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau garddwriaeth. Y tu allan i'r coleg, caiff dysgwyr eu cefnogi â lleoliadau a all barhau ar ôl i'r dysgwr orffen eu cwrs, er enghraifft gweithio fel gofalwr y grin mewn clwb golff lleol neu mewn cegin gymunedol. Mae'r profiadau hyn yn eu galluogi i ddatblygu medrau hynod werthfawr a, lle bo'n briodol, yn paratoi dysgwyr yn addas ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth ar ôl gadael y coleg. Mae hwn yn un o gryfderau'r coleg.

Bu'r pennaeth yn y swydd er mis Medi 2024. Yn ystod y cyfnod hwn, mae sefydlu arferion a disgwyliadau clir wedi cyfrannu'n effeithiol ar amgylcheddau dysgu tawel. Mae trefniadau staffio newydd, gan gynnwys cyflwyno rolau uwch diwtoriaid a chynorthwywyr dysgu yn seiliedig ar y cwricwlwm, yn cryfhau cydweithio ar draws y tîm addysgu ac yn gwella cysondeb mewn cymorth i ddysgwyr. O ganlyniad, mae dysgwyr yn elwa ar ddull mwy meithringar a chydlynol sy'n helpu i wella ymgysylltiad, hyder a chynnydd.

Mae arweinwyr yn cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol gwerthfawr sy'n cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau'r coleg. O ganlyniad, mae staff yn datblygu mwy o hyder ac arbenigedd

mewn cefnogi anghenion cyfathrebu a synhwyraidd cymhleth dysgwyr. Maent yn sicrhau y caiff arfer gyson ei rhoi ar waith, gan wella ymgysylltiad dysgwyr ar draws y coleg.

Mae arweinwyr wedi ymwreiddio diwylliant diogelu cadarn yn y coleg ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau'n hynod effeithiol. Ar ben hynny, mae'r pennaeth diogelu ar gyfer yr Ymddiriedolaeth yn ymweld â'r coleg yn rheolaidd ac yn gweithredu fel cyfaill beirniadol i'r unigolyn diogelu dynodedig. Mae'r staff yn ymgymryd â hyfforddiant diogelu rheolaidd ac mae prosesau recriwtio mwy diogel yn gadarn.

Ar lefel sefydliadol, nid yw arweinwyr yn gwerthuso nac yn adolygu polisïau a gweithdrefnau'r coleg yn gadarn i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â chyd-destun Cymreig y coleg a deddfwriaeth ac arweiniad Cymru.

Er bod strategaethau cyfathrebu wedi'u hen sefydlu yn ymarferol, dim ond megis dechrau datblygu y mae gwerthuso'r effaith ar gynnydd dysgwyr.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r coleg i barhau i wella:

A1 Mireinio prosesau hunanwerthuso i ystyried effaith strategaethau cyfathrebu ar gynnydd dysgwyr

A2 Sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau'r coleg yn cynnwys cyfeiriadau priodol at gyd-destun Cymreig y coleg a deddfwriaeth ac arweiniad Llywodraeth Cymru.

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o'r ymweliad neu'r adroddiad arolygu blaenorol

### A1 Atgyfnerthu cynnydd tuag at ymwreiddio strategaethau cyfathrebu i ddysgwyr ar draws y coleg

Ers yr ymweliad diwethaf, mae arweinwyr wedi gwneud cynnydd cryf wrth ymwreiddio strategaethau cyfathrebu i ddysgwyr ar draws y coleg.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y coleg ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol â Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/07/2026